

CABINET CYNGOR GWYNEDD

ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod:	26 Tachwedd 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Dafydd Meurig
Swyddog Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679468
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 18/19

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Bod y Cabinet yn ystyried a derbyn yr adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2018-19 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn Adroddiad Blynyddol 2018/19 ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'n ofynnol yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, cyhoeddi a chyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gwaith ac yn ei yrru ymlaen i sylw Llywodraeth Cymru.
- 2.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi ei atodi yn Atodiad 1 ac wedi cael sêl bendith gan aelodau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru fel amlinelliad teg a chytbwys o waith y Bartneriaeth am y flwyddyn 2018/19.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu gwaith gan yn ogystal ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 3.2 Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae angen i'r Byrddau ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau eu hadroddiad. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y canllawiau hyn. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn ffurf sy'n ceisio cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys barn nifer o aelodau'r Bwrdd.

Cyswllt:
01286 679868 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



- 3.3 Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 3.4 Diben Rhan 9 o'r Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
 - Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
 - Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
 - gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.
- 3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn ail-ysgrifennu Rhan 9 o'i Ganllawiau Statudol ar hyn o bryd, a dylid eu derbyn yn yr hydref. Daw'r canllawiau hyn wedi'u diweddarau i rym o fis Ebrill 2019, felly nid yw'n effeithio ar yr adroddiad cyfredol.
- 3.6 O ran y prif negeseuon o fewn yr adroddiad blynyddol, hoffwn dynnu sylw aelodau'r Cabinet i'r canlynol:-
- 3.6.1 Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan blaenllaw yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am y flwyddyn o dan ystyriaeth – gyda'r Cynghorydd Gareth Roberts (cyn aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) yn gadeirydd, a Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn aelod o'r Bwrdd ac yn arwain ar sawl ffrwd gwaith i'r Bartneriaeth.
- 3.6.2 Mae'r Bartneriaeth wedi adolygu yn gyson yr aelodaeth o'r Bwrdd a bellach mae dau o gynrychiolwyr o'r maes tai ac mae hefyd bellach dau aelod ar gyfer dinasyddion ac hefyd ar gyfer gofalwyr.
- 3.6.3 Mae amlinelliad o nifer o lwyddiannau a meysydd gwaith bu i'r Bwrdd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, a mae rhain wedi eu nodi ar dudalen 4 o'r adroddiad yn Atodiad 1, sy'n cynnwys:-
- Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol,
 - Strategaeth Anableddau Dysgu Rhanbarthol,
 - Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol,
 - Trefniadau Comisiynu Strategol,
 - Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol (gan gynnwys gwaith ar gyllidebau cyfun),
 - Cynllun Rhanbarthol ar gyfer gweithredu Cymru Iachach (gan gynnwys 4 cais llwyddiannus o Gronfa Trawsffurfio),
 - Cefnogi Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru
 - Sefydlu Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwybodaeth Rhanbarthol,
 - Sefydlu Panel Dinasyddion Gogledd Cymru.
- 3.7 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn 2018/19 ac mae aelodau'r Bwrdd o'r farn bod yna aeddfedrwydd bellach yn y perthynas rhwng aelodau o'r Bwrdd sydd yn galluogi trafodaethau allweddol a phwysig i gymryd lle. Yn sicr mae heriau yn parhau o ran gweithredu

mewn rhanbarth mawr gyda gymaint o aelodau a phartneriaid. Yn aml mae'n anorod bod gweithredu newidiadau a chynllunio yn digwydd ar lefel mwy lleol, ac mae 3 is ranbarth yn cael eu defnyddio yn aml o dan y trefniadau rhanbarthol. O ran y gorllewin, mae y gweithredu ar y lefel is-ranbarthol hyn yn digwydd drwy drefniadau ffurfiol at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Mon) yn ogystal a'r adrodd i'r Bwrdd Rhanbarthol. Mae'r trefniant hyn yn cael ei weld yn gweithio yn dda, er bod her o fod yn gweithio yn lleol i rhai partneriaid sydd yn sefydliadau rhanbarthol eu natur.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Mae'r gofyn yn glir mewn Deddfwriaeth o ran yr angen i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer y maes iechyd a gofal, ac mae cyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer crynhoi gwaith y bwrdd yn ofyn gan Llywodraeth Cymru.
- 4.2 Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r cyn aelod Cabinet wedi cael mewnbwn i gynnwys yr adroddiad ac o'r farn ei fod yn adlewyrchiad teg o waith y Bwrdd am y flwyddyn 2018/19.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. Dim i'w nodi.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglyn a phriodoldeb"

ii. Y Pennaeth Cyllid:

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

6.2. Barn yr Aelod Lleol:

- 6.2.1 Ddim yn fater lleol.

6.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

- 6.3.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, ac eithrio gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys dinasyddion a gofalwyr.
-

Atodiadau:

Atodiad 1